# 8. Arddodiaid

Pwrpas arddodiaid yw dangos y berthynas rhwng gair ac enw/rhagenw.

Dyma'r arddodiaid fwyaf cyffredin:

am ar at gan

heb i o dan

dros trwy wrth hyd

Os yw'r arddodiaid yn rhedadwy, gallant roi gwybodaeth i ni am y person/peth y maent yn cyfeirio atynt.
e.e. *yr arddodiaid 'amdanaf fi', gwyddwn ei fod yn cyfeirio at y person cyntaf sef fi.*

**Pwysig—pan mae arddodiad yn rhedeg, rhaid defnyddio'r ffurfiau priodol**

**Ar**

| | |
|---|---|
| **arnaf fi** | **arnom ni** |
| **arnat ti** | **arnoch chi** |
| **arno ef/arni hi** | **arnynt hwy** |

Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio arddodiaid arbennig ar ôl rhai berfenwau neu gall effeithio ar eu hystyr.
Dyma rai berfenwau sydd ag arddodiaid arbennig yn eu dilyn.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| adrodd am/wrth | credu yn/am | dianc rhag | gweddio ar/am/dros | rhyfeddu at |
| anghofio am | cyd-weld â | disgwyl am/i | gweiddi ar/am | siarad â/am |
| amddiffyn rhag | cyfarfod â | dweud wrth/am | gwrando ar/am | sôn wrth/am |
| anelu at | cyffwrdd â | dylanwadu ar | hiraethu am | sylwi ar |
| anfon at/i | cyhuddo o | dysgu i/am | llwyddo i | synnu at |
| apelio at/ar | cynnig i/am | estyn at/ | maddau i | talu i/am |
| atal rhag | cytuno â | ffarwelio â | mynd at/i | ufuddhau i |
| ateb dros | chwerthin am | gadael i | peidio â | ychwanegu at |
| bodloni ar/i | chwilio am/i | gafael yn/mewn | pwyso ar | ymdrin â |
| caniatau i | dangos i/sut | gofalu am | rhedeg at/ar | ymladd â/dros |
| clywed am/gan | dial ar | gofyn i/am | rhoi i/am | ymosod ar |
| cofio am | | gwahardd rhag | | ysgrifennu at/i |

**Cofiwch:** Nid oes angen arddodiad yn dilyn y ferf *sylweddoli*.

*(Arddodiaid–parhad)*

**Rhedeg yr Arddodiaid**

Pan mae rhagenw yn dilyn arddodiad mae angen rhedeg yr arddodiad hwnnw.

| | **am** | **ar** |
|---|---|---|
| (Pan mae ffurf ffurfiol gyfarwydd i rediad yr arddodiad, mae wedi cael ei ddangos mewn ysgrfen italig.) | amdana*(f)* i<br>amdanat ti<br>amdano *ef*/fe<br>amdani hi<br>amdanon ni<br>amdanoch chi<br>amdanon nhw | arna*(f)* fi<br>arnat ti<br>arno *ef*/fe<br>arni hi<br>arnon ni<br>arnoch chi<br>arnon nhw |
| **at** | **gan** | **heb** |
| ataf i<br>atat ti<br>ato *ef*/fe<br>ati hi<br>aton ni<br>atoch chi<br>aton nhw | *gennyf i*/gen i<br>*gennyt ti*/gen ti<br>ganddo *ef*/fe<br>ganddi hi<br>*gennym ni*/gynnon ni<br>*gennych chi*/gynnoch chi<br>ganddyn nhw | hebddo i<br>hebddot ti<br>hebddo *ef*/fe<br>hebddi hi<br>hebddon ni<br>hebddoch chi<br>hebddyn nhw |
| **i** | **o** | **dan** |
| *i mi*/fi<br>i ti<br>iddo *ef*/hi<br>iddi hi<br>i ni<br>i chi<br>iddyn nhw | ohono*(f)* i<br>ohonot ti<br>ohono *ef*/fe<br>ohoni hi<br>ohonon ni<br>ohonoch chi<br>ohonyn nhw | dana*(f)* i<br>danat ti<br>dano *ef*/fe<br>dani hi<br>danon ni<br>danoch chi<br>danyn nhw |
| **tros/dros** | **trwy** | **wrth** |
| *trosof fi*/drosto i<br>*trosot ti*/drostot ti<br>*trosto ef*/drosto fe<br>*trosti hi*/drosti hi<br>*trosom ni*/droston ni<br>*trosoch chi*/drostoch chi<br>*trostyn nhw*/drostoch chi | *trwof i*/trwyddo i<br>trwyddot ti<br>trwyddo fe<br>trwyddo hi<br>*trwom ni*/trwyddon ni<br>*trwoch chi*/trwyddoch chi<br>trwyddyn nhw | wrthyf i/wrtho i<br>wrthot ti/wrthyt ti<br>wrtho ef/fe<br>wrthi hi<br>wrthon ni<br>wrthoch chi<br>wrthyn nhw |
| **rhwng** | **yn** | **rhag** |
| rhyngo*(f)* i<br>rhyngot ti<br>rhyngddo *ef*/fe<br>rhyngddi hi<br>rhyngon ni<br>rhyngoch chi<br>rhyngddyn nhw | yno*(f)* i<br>ynot ti<br>ynddo *ef*/fe<br>ynddi hi<br>ynon ni<br>ynoch chi<br>ynddyn nhw | rhagddo i<br>rhagddot ti<br>rhagddo *ef*/fe<br>rhagddi hi<br>rhagddon ni<br>rhagddoch chi<br>rhagddyn nhw |